**Darren Millar AS - Ymweliad â 's-Hertogenbosch**

**25 - 27 Hydref 2024**

## Diben yr Ymweliad

Mynd i gyfres o ddigwyddiadau fel cynrychiolydd y Senedd ar wahoddiad Arglwydd Faer 's-Hertogenbosch i nodi 80 mlynedd ers rhyddhau'r ddinas gan 53ain Adran Troedfilwyr Cymru.

## Cyfarfod â Llysgennad y DU i'r Iseldiroedd

Wrth gyrraedd ddydd Gwener, 25 Hydref, cynhaliais gyfarfod â'r Llysgennad Joanna Roper, Nia Griffith AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru, a Huw Irranca-Davies AS ein Dirprwy Brif Weinidog. Yn ystod y cyfarfod cawsom sesiwn friffio ar y berthynas rhwng y DU a'r Iseldiroedd a chysylltiadau â Chymru.

## Digwyddiad Diwylliannol Cymru

Yn ddiweddarach gyda'r nos, euthum i gyngerdd gyda phobl urddasol dinesig a chynrychiolwyr milwrol. Roedd y cyngerdd yn cynnwys cantorion a cherddorion o Gymru gan gynnwys myfyrwyr o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, sef y Côr 'Noteworthy', a'r telynor Dylan Cernyw (o'm etholaeth i yng Ngorllewin Clwyd).

## Gwasanaeth a Gorymdaith Dydd Rhyddid

Ddydd Sadwrn, 26 Hydref, roedd y rhaglen yn cynnwys derbyniad yn Neuadd y Dref ac yna Gwasanaeth Coffa yng Nghadeirlan Sant Ioan i'r 146 o filwyr o Gymru a gollodd eu bywydau ym Mrwydr 's-Hertogenbosch.

Ar ôl y gwasanaeth, cynhaliwyd gorymdaith filwrol yr Ail Ryfel Byd yn sgwâr y dref a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o 160$^{fed}$ Brigâd (Gymreig) a chynrychiolwyr o sefydliadau lleol. Y Brigadwr Nick Thomas, o'r 160$^{fed}$ Frigâd a gymerodd y saliwt.

## Gwasanaeth Coffa

Yna symudasom ymlaen i Gofeb y 53ain Adran Gymreig yn y ddinas, ble gosododd Alun Davies AS a minnau dorch ar ran Aelodau o'r Senedd mewn gwasanaeth coffa teimladwy. Roedd y gwasanaeth yn cynnwys plant lleol ynghyd â Llu Awyr yr Iseldiroedd yn hedfan heibio.

**Cyflwyniad ar gyfer yr Arglwydd Faer**

Yn ddiweddarach yn y nos cynhaliwyd cinio preifat gyda Jak Mikkers, yr Arglwydd Faer, a chynrychiolwyr dinesig a milwrol. Yn ystod y cinio cefais fy ngwahodd i siarad â'r gwesteion am y cyfeillgarwch rhwng Cymru a dinas 's-Hertogenbosch, a chyflwynais anrhegion o Gymru i'r Maer, gan gynnwys llwy garu Gymreig.

Roedd y drafodaeth dros ginio hefyd yn gyfle i roi rhagor o wybodaeth am waith y Senedd o ran cefnogi cyn-filwyr a gweithgareddau coffaol yng Nghymru. Clywais ragor hefyd am y perthnasoedd rhwng llywodraeth genedlaethol, llywodraeth ranbarthol a llywodraeth leol yn yr Iseldiroedd, a sut y caiff gweithgarwch coffaol ei drin a'i drafod.

**Drama am Ryddid**

Ar ôl y cinio, aethom i weld drama yn Theater Aan de Parade a oedd yn cynnwys actorion lleol. Roedd y ddrama yn mynd yn ôl ac ymlaen rhwng hanes 's-Hertogenbosch yn ystod y rhyfel hyd at yr oes fodern, i adrodd hanes rhyddid y ddinas.

**Casgliad**

Roedd yr ymweliad yn addysgiadol ac yn werth chweil.

Fe wnaeth yr ymweliad alluogi'r Senedd i gael ei chynrychioli yn ystod digwyddiad allweddol i ddathlu 80 mlwyddiant 's-Hertogenbosch, a ystyrir fel y 'ddinas fwyaf Cymreig yn yr Iseldiroedd', ac i anrhydeddu'r milwyr hynny o Gymru a gollodd eu bywydau ac a aberthodd gymaint dros ei rhyddid.

Rhoddodd gyfle hefyd i dynnu sylw at waith Senedd Cymru o ran cefnogi cyn-filwyr a gweithgareddau coffa gartref yng Nghymru.

**Darren Millar AS**
**Gorllewin Clwyd**